

## Golygyddol

# Ailaddysgu'r genedl? Datblygu cwricwlwm newydd i Gymru

Mae'r Rhifyn Arbennig hwn yn edrych ar y nifer mawr o ystyriaethau sy'n codi pan fydd gwlad yn penderfynu ailysgrifennu'r cwricwlwm ysgol – yn enwedig lle mae ailysgrifennu o'r fath yn golygu newid sylfaenol o ddull confensiynol sy'n seiliedig ar bynciau.

Ym Mawrth 2014, cafodd Graham Donaldson ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o system addysg Cymru. Cyhoeddwyd ei adroddiad, *Dyfodol Llwyddiannus*, yn Chwefror 2015 a chafwyd cefnogaeth ddiawms iddo ers hynny gan Lywodraeth Cymru. Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn addo newid sylfaenol – yn enwedig mewn ysgolion uwchradd – at addysg sy'n fwy rhyngddisgyblaethol ac yn rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu drwy brofiad. Mae'r cynnig a gafwyd o ganlyniad i hyn yn arwain at ddiwygiadau helaeth o ran cynnwys, addysgu a dysgu'r cwricwlwm ar gyfer yr holl bobl ifanc 3 i 16 oed mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Elfen ganolog yn y diwygiadau newydd hyn yw set o nodau pendant – y 'pedwar diben'; y bydd yr holl blant: yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn gyfranwyr mentrus, creadigol; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus; ac yn unigolion iach, hyderus. Mae *Dyfodol Llwyddiannus* hefyd yn cynnig y dylai'r cwricwlwm gael ei drefnu ar sail chwe Maes Dysgu a Phrofiad, a fydd yn cymryd lle'r cwricwlwm cenedlaethol blaenorol a oedd wedi'i drefnu ar sail pynciau disgyblaethol traddodiadol. Y chwe Maes Dysgu a Phrofiad yw: Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Nodwedd allweddol arall yn y diwygiadau yw'r pwyslais ar 'gontinwrm dysgu' sy'n disodli 'dyfarniadau' ym mhedwar Cyfnod Allweddol gan roi 'pwyntiau cyfeirio' yn eu lle ar bum Cam Cynnydd yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed. Yn olaf, mae'r diwygiadau hyn yn cynnig 'ailbroffesiynoli' sylfaenol yn y gweithlu addysgu drwy gymell mwy o hyblygrwydd ac ymreolaeth wrth weithredu'r cwricwlwm, yng nghyswllt cynnwys ac addysgeg.

Felly, er 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi arwain rhaglen fawr o weithgareddau i ddatblygu'r *Cwricwlwm i Gymru* newydd, yn barod i'w gyflwyno yn yr holl ysgolion ym Medi 2022. Gan ddilyn argymhelliad Graham Donaldson, mae'r Llywodraeth wedi mabwysiadu egwyddor sybsidiaredd yn y broses diwygio – gan roi llawer o'r cyfrifoldeb dros y broses hon i athrawon. Sefydlwyd rhwydwaith o Ysgolion Arloesi i ddarparu arbenigedd pwnc ar gyfer datblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad, i helpu i

[The copyright line for this article was changed on 15 May 2020 after original online publication.]

© 2020 The Authors. *The Curriculum Journal* published by John Wiley & Sons Ltd on behalf of British Educational Research Association

This is an open access article under the terms of the Creative Commons Attribution License, which permits use, distribution and reproduction in any medium, provided the original work is properly cited.

ddatblygu hyfforddiant ar gyfer gweithredu'r *Cwricwlwm i Gymru* ac i roi cymorth i gynnwys cymhwysedd digidol ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Er nad yw'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i gyflwyno'n ffurfiol eto, mae natur y diwygiadau'n golygu y bydd ysgolion ac athrawon yn paratoi eu dull o weithredu a'u deunyddiau eu hunain cyn iddo ddechrau. Yn wir, mae'r holl ysgolion cynradd yng Nghymru eisoes wedi darparu'r Cyfnod Sylfaen i'r holl ddysgwyr 3 i 7 mlwydd oed er 2008. Datblygwyd y Cyfnod Sylfaen ar sail egwyddorion tebyg iawn i'r *Cwricwlwm i Gymru*, gyda Meysydd Dysgu a Phrofiad tebyg a phwyslais mawr ar ddysgu drwy brofiad sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Dim ond unwaith ym mhob cenhedlaeth y bydd diwygiadau cwricwlar yn digwydd ar y raddfa hon fel arfer. A phob tro y bydd gwlad yn diwygio ei chwricwlwm, bydd yn gwneud hynny am ei bod yn gweld bod galw newydd am y cwricwlwm hwnnw a/neu er mwyn ymateb i ddiffygion penodol yn y system addysg bresennol. Felly, mae'n anodd iawn datblygu cwricwlwm newydd ar sail arbenigedd a dealltwriaeth bresennol. Yn yr un modd, unwaith y bydd gwlad wedi cyflwyno cwricwlwm newydd, anaml y bydd awydd i fyfyrion ar y broses ar gyfer llunio'r cwricwlwm a'i gwerthuso, gan ei bod yn annhebygol y bydd yn cyflwyno set debyg o ddiwygiadau am genhedlaeth arall o leiaf. Felly, mae dyletswydd ar y gymuned ymchwil addysg i edrych ar broses llunio'r cwricwlwm, nodi llwyddiannau a gwendidau'r diwygiadau hynny a darparu mewnwleidiadau i'r rheini sy'n parhau i gymryd rhan yn y broses.

Dyma'r hyn y mae'r Rhifyn Arbennig hwn yn ceisio ei wneud. Gan elwa o nifer o astudiaethau empirig a gynhaliwyd yn ystod cyfnod cynllunio a datblygu'r *Cwricwlwm i Gymru*, mae'r Rhifyn Arbennig hwn yn cynnwys deg papur ymchwil rhagorol, pob un yn edrych ar agwedd wahanol o'r broses ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru. Ym mhob papur, mae'r awduron yn darparu rhagor o fanylion am y diwygiadau ac yn cynnig mewnwleidiadau i natur y broses diwygio ac i'r heriau sy'n aros o hyd.

Ym mhapur cyntaf y Rhifyn Arbennig, mae Claire Sinnema, Nienke Nieveen a Mark Priestley yn gosod y *Cwricwlwm i Gymru* yn ei gyd-destun rhyngwladol. Drwy wrthgyferbynnu a chymharu diwygiadau'r cwricwlwm yng Nghymru â'r rheini mewn gwledydd eraill, fel Seland Newydd, yr Alban a'r Iseldiroedd – pob un yn faes y mae'r awduron yn arbenigo ynddo – maent yn tynnu sylw at yr heriau mwyaf sy'n codi wrth gyflwyno cwricwlwm sydd â set gymhleth o elfennau cwricwlar rhyngweithiol yn rhan o'i strwythur. Yn benodol, mae'r awduron yn tynnu sylw at bwysigrwydd atebolrwydd, dysgu proffesiynol a chyd-destun rhwydweithiau cymdeithasol ar gyfer gwireddu uchelgeisiau'r cwricwlwm newydd.

Un enghraifft o'r hyn y mae Sinnema *et al.* yn ei alw'n set gymhleth o elfennau cwricwlar rhyngweithiol yw'r berthynas rhwng y pedwar diben a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae Jane Gatley yn trafod y berthynas hon ac yn dadlau y byddai cwricwlwm wedi'i seilio ar y pedwar diben yn gallu peri bod y pynciau ysgol traddodiadol yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn dod yn ddiangen bron. Yn yr un modd, yn ôl dadl Gatley, ni fydd cwricwlwm wedi'i seilio ar y chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn sicr o helpu i gyflawni'r pedwar diben. Yn ei gasgliad, mae Gatley yn awgrymu y gall cynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad fod yn angenrheidiol i gyflawni'r pedwar diben, ond na fydd y meysydd hyn yn ddigon ar eu pen eu hunain ac y bydd angen diwygiadau sylweddol eraill wedyn.

Yn y papur nesaf, mae Nigel Newton yn edrych ar egwyddor sybsidiaredd fel y mae wedi'i disgrifio yn *Dyfodol Llwyddiannus*, gan awgrymu bod pedwar rheswm cydgyssylltiedig dros ei defnyddio yng Nghymru. Ar sail ymchwil gydag athrawon Ysgolion Arloesi, mae Newton yn gwrthgyferbynnu'r bwriadau sydd wrth wraidd sybsidiaredd â'r profiad a gafwyd o ddiwygio'r cwricwlwm. Wrth wneud hyn, mae Newton yn tynnu sylw at ffyrdd y mae'r broses diwygio wedi gwyro oddi wrth egwyddorion sybsidiaredd, neu wedi'u gwanhau. Gan ddefnyddio enghreifftiau o ddiwygiadau blaenorol yn y sector cyhoeddus a seiliwyd ar egwyddorion sybsidiaredd, mae'n rhybuddio y gallai hyn arwain at fwy o densiynau o fewn y system addysg yn hytrach na hwyluso newid.

Mae Susan Chapman hefyd yn edrych ar brofiadau athrawon o ddiwygio'r cwricwlwm, ond o safbwynt un grŵp penodol o ysgolion ac athrawon. Mae oddeutu 20 y cant o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd gwledig tenau eu poblogaeth, ac mae nifer y plant dan 16 oed yn yr ardaloedd hynny wedi disgyn yn gyson er 2001. O ganlyniad i hyn, bydd ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd o'r fath yn aml yn wynebu nifer o heriau sydd heb eu cydnabod sy'n ganlyniad i'w lleoliad daearyddol. Mae Chapman yn disgrifio sut mae'r *Cwricwlwm i Gymru*, a'i bwyslais cynyddol ar ddysgu drwy brofiad, yn cael effaith neilltuol ar ysgolion gwledig. Drwy ymchwil gydag ysgolion ac athrawon mewn ardaloedd gwledig, mae Chapman yn nodi tair her y bydd ysgolion gwledig yn eu hwynebu wrth weithredu'r cwricwlwm newydd: staffio, mynediad at ddysgu proffesiynol, a mynediad gan ddysgwyr at gyfleoedd dysgu allgwricwlar.

Mae'r tri phapur nesaf i gyd yn ymdrin â'r ffordd i ddeall a dehongli ystyr y term 'cwricwlwm integredig' – un o hanfodion y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn y *Cwricwlwm i Gymru*. Yn gyntaf, mae Claire Gorrara, Lucy Jenkins, Eira Jepson a Tallulah Machin yn trafod y rhagdybiaethau sy'n sail i ddysgu ieithoedd ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu sy'n ceisio integreiddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol. Gan dynnu ar eu profiad eu hunain a'u hymchwili i gynllun mentora pwysig ar gyfer dysgu ieithoedd tramor modern, maent yn dangos sut mae dull amlieithog o ddysgu ieithoedd yn gallu helpu i greu partneriaeth barhaus rhwng cymunedau addysgu a dysgu ieithoedd a oedd ar wahân cyn hynny. Mae'r ail bapur, gan Judith Kneen, Thomas Breeze, Sian Davies-Barnes, Vivienne John ac Emma Thayer, yn edrych ar brofiadau a chanfyddiadau athrawon mewn ysgolion arloesi cynradd ac uwchradd a oedd yn ymwneud â Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Mae'r holl athrawon yn teimlo'n frwd am y ffaith y bydd y celfyddydau mynegiannol yn cael statws uwch yn y cwricwlwm, ond maent hefyd yn cydnabod ac wedi dechrau profi'r heriau a wynebir wrth integreiddio'r cwricwlwm, yn enwedig y perygl y byddai integreiddio o'r fath yn gallu gwanhau gwybodaeth ddisgyblaethol. Mae'r trydydd papur, gan Sioned Hughes, Kara Makara a Dave Stacey, yn canolbwyntio ar Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Maent yn trafod cynnydd dysgwyr drwy'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn ac yn nodi pedwar tensiwn sy'n codi: y berthynas rhwng disgyblaethau; y cydbwysedd rhwng gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd; gwahaniaethau rhwng y modelau cynnydd sylfaenol yn y Dyniaethau; a chydbwysio cymhlethdod y dysgu ag ystyriaethau ymarferol ar gyfer cwricwlwm cenedlaethol. Wrth ddod i'w casgliadau, mae pob un o'r tri phapur yn ystyried y goblygiadau i ddysgu proffesiynol o'r heriau a wynebir wrth integreiddio'r cwricwlwm.

Mae thema dysgu proffesiynol yn codi eto mewn papur gan Sioned Hughes a Helen Lewis. Yma mae'r awduron yn trafod pa mor bwysig, a pha mor anodd, yw cryfhau galluedd athrawon yn addysgeg y *Cwricwlwm i Gymru*. Maent yn nodi bod y defnydd o ddulliau cwricwlar ac addysgegol parod yn debygol o ymddangos yn ddeniadol i ysgolion ac athrawon sy'n dymuno datblygu ymateb cyflym i ddiwygiadau cwricwlar sydd heb fod yn gyfarwyddol iawn. Gan ddefnyddio'r enghraifft o becyn 'Ymwybyddiaeth Ofalgar' masnachol a ddefnyddir mewn ysgolion cynradd, mae'r awduron yn edrych ar y croestynnu rhwng yr ymdrech i gryfhau medrusrwydd proffesiynol a chynyddu ymreolaeth ar y naill law ac arferion proffesiynol presennol ar y llall.

Un o'r pethau nad ydym yn eu gwybod ynghylch y *Cwricwlwm i Gymru* yw beth fydd y berthynas rhwng y trefniadau newydd a chymwysterau i rai sy'n gadael yr ysgol. Mae'r ansicrwydd am ddyfodol neu strwythur cymwysterau TGAU yng Nghymru effaith hynny ar weithredu'r cwricwlwm newydd yn fater sydd wedi'i nodi yn yr holl bapurau yn y Rhifyn Arbennig hwn. Mae Elizabeth Titley, Andrew Davies a Stephen Atherton yn datblygu'r thema hon drwy ddisgrifio persbectifau athrawon a dysgwyr ar ddiwygiadau diweddar mewn cymwysterau TGAU ar ôl 2015. Maent yn dangos sut byddai'r system flaenorol sydd wedi'i seilio ar asesu, a'r addysgeg ac atebolrwydd allanol sy'n gysylltiedig â hi, yn gallu bod yn anghyson â'r egwyddorion asesu a amlinellwyd yn *Dyfodol Llwyddiannus*.

Yn olaf, mae Sally Power, Nigel Newton a Chris Taylor yn ystyried y goblygiadau sydd yn y *Cwricwlwm i Gymru* i un o brif fethiannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol blaenorol – parhad anghydraddoldeb addysgol. Yn y papur hwn, mae'r awduron yn disgrifio rhai o'r heriau a wynebir gan ysgolion sy'n gweithredu'r cwricwlwm newydd wrth geisio darparu 'dyfodol llwyddiannus' i *barwb*. Gan dynnu ar brofiad athrawon arloesi, mae'r awduron yn dod i'r casgliad y bydd angen buddsoddi sylweddol a rhyw fath o atebolrwydd allanol er mwyn i ddysgwyr difreintiedig gael profiad o'r cwricwlwm sy'n agor llwybrau at 'wybodaeth bwerus'.

Mae'n gynnwys iawn o hyd, wrth gwrs. Ar adeg ysgrifennu hyn, nid yw'r gwaith o gyflwyno'r *Cwricwlwm i Gymru* ar draws y system wedi dechrau eto. Er hynny, mae eisoes yn glir y bydd angen llawer o waith caled, ffyrdd creadigol i ddatrys problemau a buddsoddi sylweddol er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus a gwireddu ei addewid.

Chris Taylor a Sally Power  
*WISERD, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, Cymru*